

# Newyddlen Blog Canolfan San Silyn

Cefnogi addysgu a dysgu yn Wrecsam



Annwyl Gydweithwyr,

Da iawn – daethoch drwyddi! Diwedd y flwyddyn ysgol ar y gorwel a bu'n flwyddyn heriol arall. Fel erioed rydych wedi cyflawni cymaint, o baratoi i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi, i gael eich dysgwyr drwy'r arholiadau allanol ffurfiol cyntaf ers Covid.

Ond cyn i chi ddiffodd y peiriant am seibiant haeddiannol yr haf, roeddem eisiau'ch atgoffa am rai o'r pethau rydym wedi bod yn eu gwneud yng nghanolfan San Silyn eleni. Felly, dyma gylchlythyr yr haf yn tynnu sylw at rai o'r uchafbwyntiau diweddaraf o'n blog ar-lein rhag ofn i chi eu colli y tymor hwn.

Gobeithio fod y Newyddlen o gymorth i chi, yn ogystal â'r hyn y mae Canolfan San Silyn eisoes wedi'i ddarparu y tymor hwn. Rydym eisiau diolch i chi hefyd am ymuno â ni ar y sesiynau dysgu proffesiynol a gynhaliwyd. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda chi eto yn y flwyddyn academaidd nesaf.

Gan ddymuno gwyliau haf hapus a haeddiannol.

Libby a Tania

## ARCHWILIO BYDOLYGON: ADNODD YSGOGOL I GREFYDD, GWERTHOEDD A MOESG YNG NGHYMRU

Mae Canolfan San Silyn wedi cyhoeddi adnodd dysgu proffesiynol dwyieithog newydd o'r enw *Archwilio bydolygon: adnodd ysgogol i grefydd, gwerthoedd a moeseg yng Nghymru*. Lanswyd yr adnodd mewn sesiwn arbennig o ddysgu proffesiynol a ddarparwyd gan Ganolfan San Silyn ar 9 Mehefin 2022 i ymarferwyr uwchradd yn Wrecsam... (*Blog: 23 Mehefin 2022*)

Darllenwch ragor ...

[stgilescentre.org/cy/2022/06/23/exploring-worldviews-a-stimulus-resource-for-religion-values-and-ethics-in-wales/](https://stgilescentre.org/cy/2022/06/23/exploring-worldviews-a-stimulus-resource-for-religion-values-and-ethics-in-wales/)




## RHAGFLAS AR GYFER MAES LLAFUR CYTUNEDIG NEWYDD WRECSAM AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESG

Ar ddechrau mis Mehefin, cafodd ymarferwyr cynradd ac uwchradd yn awdurdod lleol Wrecsam ragolwg o Faes Llafur Cytunedig newydd Wrecsam ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Roedd y rhagflas yn rhan o ddwy sesiwn dysgu proffesiynol a gynhaliwyd gan Ganolfan San Silyn a gynlluniwyd i gefnogi ysgolion i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd... (*Blog: 18 Mehefin 2022*)

Darllenwch ragor ...

[stgilescentre.org/cy/2022/06/18/trailer-for-the-new-wrexham-agreed-syllabus-for-religion-values-and-ethics/](https://stgilescentre.org/cy/2022/06/18/trailer-for-the-new-wrexham-agreed-syllabus-for-religion-values-and-ethics/)



## TUDALEN GWEFAN NEWYDD AC ADNODD AR GYFER LLAIS Y DYSGWYR YN CGM

Yng Nghanolfan San Silyn rydym yn teimlo fod llais y dysgwyr yn agwedd hollbwysig o ymagwedd hawliau dynol a byddem yn annog ysgolion a lleoliadau i ymgysylltu gymaint â phosibl â'u dysgwyr o ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, er mwyn gwneud yn siŵr fod eu darpariaeth yn addas a bod barn y dysgwyr wedi cael ei chlywed a'i hystyried. Er mwyn helpu i gefnogi ysgolion a lleoliadau yn y broses hon, mae Canolfan San Silyn wedi ychwanegu ...

*(Blog: 10 Mai 2022)*

Darllenwch ragor ...

<http://stgilescentre.org/cy/2022/05/10/new-website-page-and-resource-for-the-learner-voice-in-rve/>



## SESIYNAU DYSGU PROFFESIYNOL I LANSIO MAES LLAFFUR CYTUNEDIG WRECSAM AR GYFER CGM

Yn ystod tymor yr haf hwn, mae Canolfan San Silyn yn cynnig dwy sesiwn dysgu proffesiynol i ysgolion yn Wrecsam i lansio maes llafur cytunedig Wrecsam ar gyfer CGM. Mae'r sesiynau am ddim a byddant yn cael eu cynnal ar Microsoft Teams. Cynhelir y sesiwn ar gyfer ysgolion CYNRADD ddydd Mawrth 7 Mehefin 2022, rhwng 4pm a 5.30pm. Fel rhan o lansiad y maes llafur cytunedig, bydd y sesiwn yn archwilio cynefin a CGM... *(Blog: 10 Mai 2022)*

Darllenwch ragor ...

[stgilescentre.org/cy/2022/05/10/professional-learning-sessions-to-launch-the-wrexham-agreed-syllabus-for-rve/](http://stgilescentre.org/cy/2022/05/10/professional-learning-sessions-to-launch-the-wrexham-agreed-syllabus-for-rve/)





## DYSGU PROFFESIYNOL YN CGM: DIGWYDDIAD MEWNWELEDIAD POLISI WEDI'I GYHOEDDI AR HWB

Roedd hi'n fraint i staff Canolfan San Silyn, Libby Jones a Tania ap Siôn, gael lletya Digwyddiad Mewnwelediad Polisi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) Llywodraeth Cymru ar ran Cymdeithas CYSAGau Cymru. Nod y Digwyddiadau Mewnwelediad Polisi ar-lein yw diweddarau rhanddeiliaid â datblygiadau dysgu proffesiynol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru... (Blog: 5 Mai 2022)

Darllenwch ragor ...

[stgilescentre.org/cy/2022/05/05/professional-learning-in-rve-policy-insight-event-now-published-on-hwb/](https://stgilescentre.org/cy/2022/05/05/professional-learning-in-rve-policy-insight-event-now-published-on-hwb/)



## GWRANDO AR BOBL IFANC YN WRECSAM: SENEDD YR IFANC YN TRAFOD CGM YN Y CWRICWLWM I GYMRU

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn dod â llawer o newidiadau i'r ddarpariaeth, yr addysgeg a'r ymarfer presennol yn ein hysgolion lleol. Mae Addysg Grefyddol yn mynd yn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) o fis Medi 2022. Felly roedd hi'n bwysig i GYSAG Wrecsam fod llais lleol y dysgwr yn cael ei glywed cyn i Gynhadledd y Maes Llafur Cytunedig argymhell maes llafur cytunedig newydd i CGM i'r awdurdod lleol ... (Blog: 3 May 2022)

Darllenwch ragor ...

[stgilescentre.org/cy/2022/05/03/listening-to-young-people-in-wrexham-senedd-yr-ifanc-discusses-rve-in-the-curriculum-for-wales/](https://stgilescentre.org/cy/2022/05/03/listening-to-young-people-in-wrexham-senedd-yr-ifanc-discusses-rve-in-the-curriculum-for-wales/)

